OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 746

# Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010

## RHAN 2

PANELAU

### Cyfansoddiad panelau

**5.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais a wnaed gan geisydd yn unol â rheoliad 19, gyfansoddi panel yn unol â rheoliad 6, 7 neu 8, yn ôl fel y digwydd, at y diben o adolygu'r penderfyniad cymhwysol.

(2) Rhaid dewis aelodau'r panel oddi ar restr o bersonau (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "y rhestr ganolog") a gedwir gan Weinidogion Cymru, o bersonau a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn addas, yn rhinwedd eu sgiliau, cymwysterau neu brofiad, i fod yn aelodau o banel.

(3) Rhaid i aelodau o'r rhestr ganolog gynnwys —

(a) gweithwyr cymdeithasol sydd â thair blynedd, o leiaf, o brofiad, ar ôl cymhwyso, o waith mabwysiadu a lleoli mewn teuluoedd;

(b) gweithwyr cymdeithasol sydd â thair blynedd, o leiaf, o brofiad ar ôl cymhwyso, o waith cymdeithasol ynglŷn â gofal plant, gan gynnwys profiad uniongyrchol o waith maethu;

(c) ymarferwyr meddygol cofrestredig; ac

(ch) personau eraill a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn addas i fod yn aelodau o banel, gan gynnwys, pan fo'n rhesymol ymarferol, personau sydd â phrofiad personol o fabwysiadu, a phersonau sydd, neu a fu o fewn y ddwy flynedd flaenorol, yn rhiant maeth awdurdod lleol.

### Aelodaeth panel ar gyfer adolygu penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu

**6.** Pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu, y nifer o bobl y mae'n rhaid eu penodi'n aelodau o banel yw pump, a rhaid i'r panel gynnwys o leiaf —

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(a);

(b) un person sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(c); ac

(c) dau berson arall o'r rhestr ganolog, gan gynnwys pan fo'n rhesymol ymarferol, o leiaf un person sydd â phrofiad personol o fabwysiadu.

### Aelodaeth panel ar gyfer adolygu penderfyniad ar ddatgelu

**7.** Pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar ddatgelu, y nifer o bobl y mae'n rhaid eu penodi'n aelodau o banel yw pump, a rhaid i'r panel gynnwys o leiaf —

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(a); a

(b) tri pherson o'r rhestr ganolog.

### Aelodaeth panel ar gyfer adolygu penderfyniad ar faethu

**8.** Pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar faethu, y nifer o bobl y mae'n rhaid eu penodi'n aelodau o banel yw pump, a rhaid i'r panel gynnwys o leiaf —

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(b); a

(b) tri pherson arall o'r rhestr ganolog, gan gynnwys pan fo'n rhesymol ymarferol, un person sydd, neu a fu yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, yn rhiant maeth awdurdod lleol.

### Cynghorwyr panelau

**9.**—(1) Rhaid i banel gael ei gynghori gan weithiwr cymdeithasol sydd â chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol.

(2) Caiff panel, os yw'r panel yn ystyried hynny'n briodol, ei gynghori gan —

(a) cynghorwr cyfreithiol sydd â gwybodaeth ac arbenigedd yn nefddwriaeth mabwysiadu a maethu;

(b) ymarferydd meddygol cofrestredig sydd ag arbenigedd perthnasol mewn gwaith mabwysiadu neu faethu, pan un bynnag sy'n briodol i'r penderfyniad cymhwysol dan ystyriaeth;

(c) unrhyw berson arall sydd, ym marn y panel, ag arbenigedd perthnasol i'r penderfyniad dan ystyriaeth.

(3) Rhaid i'r cynghorwyr panelau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) fod yn aelodau o'r rhestr ganolog.

### Penodi cadeirydd panel

**10.** Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person yn gadeirydd panel, sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gadeirio panel.

### Anghymhwyso aelodau o banel

**11.**—(1) Rhaid peidio â phenodi person (“P”) yn aelod o banel —

(a) os yw'r person hwnnw'n aelod o banel mabwysiadu, neu o banel maethu, y sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol;

(b) pan fo'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol yn awdurdod lleol, os yw P ar y pryd, neu os bu yn ystod y cyfnod o un flwyddyn cyn y dyddiad pan wnaed y penderfyniad cymhwysol —

(i) yn gyflogedig gan yr awdurdod hwnnw yn eu gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd, neu

(ii) yn aelod o'r awdurdod hwnnw;

(c) pan nad yw'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol yn awdurdod lleol, os yw P, ar y pryd neu os bu yn ystod y cyfnod o un flwyddyn cyn y dyddiad pan wnaed y penderfyniad cymhwysol, yn gyflogai neu ymddiriedolwr y sefydliad hwnnw;

(ch) os yw P yn berthynas i berson sy'n dod o fewn is-baragraff (a), (b) neu (c);

(d) os yw'r sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol wedi lleoli plentyn gyda P ar gyfer ei fabwysiadu, neu wedi lleoli plentyn gyda P fel rhiant maeth awdurdod lleol;

(e) pan fo P wedi ei fabwysiadu neu'i faethu pan oedd yn blentyn, os y sefydliad a wnaeth y penderfyniad cymhwysol oedd y sefydliad a drefnodd i fabwysiadu neu faethu P; neu

(f) os yw P yn adnabod y ceisydd yn bersonol neu yn rhinwedd ei broffesiwn.

(2) Yn y rheoliad hwn —

(a) mae "cyflogedig" ("*employee*") yn cynnwys cyflogedig pa un a dderbynnir tâl ai peidio a pha un ai o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau neu fel gwirfoddolwr; a

(b) mae P yn berthynas i berson arall ("A") os yw P —

(i) yn aelod o aelwyd A, neu'n briod ag A neu'n bartner sifil i A;

(ii) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i A; neu

(iii) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i'r person sy'n briod ag A neu sydd wedi ffurfio partneriaeth sifil gydag A.

**Swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu**

**12.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu.

(2) Rhaid i banel a gyfansoddir yn unol â rheoliad 6 adolygu'r penderfyniad ar addasrwydd i fabwysiadu ac —

(a) pan fo paragraff (3) yn gymwys, gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol ynglŷn ag a yw'r ceisydd yn addas ai peidio i fabwysiadu plentyn; neu

(b) pan fo paragraff (4) yn gymwys, cyflwyno i'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad cymhwysol argymhelliad–

(i) y dylai'r asiantaeth baratoi adroddiad darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliad 26(4), a phan fo'n gymwys, rheoliad 26(5) o'r Rheoliadau Asiantaethau, a fyddai'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliad hwnnw; neu

(ii) nad yw'r ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r adroddiad darpar fabwysiadydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 26(4), a phan fo'n gymwys, rheoliad 26(5) o'r Rheoliadau Asiantaethau.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oedd adroddiad y darpar fabwysiadydd, yn unol â rheoliad 26(4), a phan fo'n gymwys rheoliad 26(5), o'r Rheoliadau Asiantaethau yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol gan reoliad 26(4) neu, os yw'n gymwys, rheoliad 26(5) o'r Rheoliadau Asiantaethau.

(5) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud –

(a) rhaid i'r panel bwyso a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a basiwyd ymlaen iddo yn unol â rheoliad 29 o'r Rheoliadau Asiantaethau;

(b) caiff y panel ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu gaffael unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ystyrir yn angenrheidiol gan y panel, neu darparu unrhyw gymorth arall y gofynnir amdano gan y panel; ac

(c) caiff y panel gaffael unrhyw gyngor yr ystyria'n angenrheidiol ynglŷn â'r achos, gan y cynghorwyr y cyfeirir atynt yn rheoliad 9.

(6) Pan fo'r panel yn gwneud argymhelliad i'r perwyl bod y ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff y panel ystyried y nifer o blant y gallai'r ceisydd fod yn addas i'w mabwysiadu, eu hystod oedran, eu rhyw, eu hanghenion tebygol a'u cefndir, a chynghori'r asiantaeth fabwysiadu ynglŷn â hynny.

### Swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu penderfyniad ar ddatgelu

**13.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar ddatgelu.

(2) Rhaid i banel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 7 adolygu'r penderfyniad ar ddatgelu, a chyflwyno i'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y penderfyniad ar ddatgelu argymhelliad ynglŷn ag a ddylai'r asiantaeth fynd ymlaen â'i benderfyniad gwreiddiol ai peidio.

(3) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud –

(a) rhaid i'r panel bwyso a mesur a chymryd i ystyriaeth yr holl wybodaeth a basiwyd ymlaen iddo yn unol â rheoliad 13A o'r Rheoliadau Datgelu;

(b) caiff y panel ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu gaffael unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ystyrir yn angenrheidiol gan y panel, neu darparu unrhyw gymorth arall y gofynnir amdano gan y panel;

(c) caiff y panel fanteisio ar unrhyw gyngor yr ystyria'n angenrheidiol ynglŷn â'r achos, gan y cynghorwyr y cyfeirir atynt yn rheoliad 9; ac

(ch) rhaid i'r panel ystyried lles unrhyw berson a fabwysiedir, ac os yw'r person yn blentyn mabwysiedig rhaid rhai'r rhoi'r lle blaenaf i les y plentyn hwnnw. Yn achos unrhyw blentyn arall, rhaid i'r panel roi sylw penodol i'w les.

### Swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu penderfyniad ar faethu

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r penderfyniad cymhwysol a adolygir yn benderfyniad ar faethu.

(2) Rhaid i banel a gyfansoddir yn unol â rheoliad 8 adolygu'r penderfyniad ar faethu, a chyflwyno i'r darparydd gwasanaeth maethu a wnaeth y penderfyniad ar faethu —

(a) argymhelliad ynglŷn ag a yw'r ceisydd yn addas ai peidio i weithredu fel rhiant maeth; neu

(b) pan fo'r penderfyniad cymhwysol yn ymwneud â thelerau cymeradwyaeth y ceisydd fel rhywun addas i weithredu fel rhiant maeth, argymhelliad i'r darparydd gwasanaeth maethu ynglŷn â'r telerau hynny.

(3) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud –

(a) rhaid i'r panel bwyso a mesur yr holl wybodaeth a basiwyd ymlaen iddo yn unol â rheoliad 29A o'r Rheoliadau Maethu;

(b) caiff y panel ofyn i'r darparydd gwasanaeth maethu gaffael unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ystyrir yn angenrheidiol gan y panel, neu darparu unrhyw gymorth arall y gofynnir amdano gan y panel; ac

(c) caiff y panel gaffael unrhyw gyngor yr ystyria'n angenrheidiol ynglŷn â'r achos, gan y cynghorwyr y cyfeirir atynt yn rheoliad 9.

(4) Pan fo'r panel yn gwneud argymhelliad i'r perwyl bod y ceisydd yn addas i weithredu fel rhiant maeth, caiff y panel hefyd wneud argymhelliad i'r darparydd gwasanaeth maethu ynglŷn â thelerau unrhyw gymeradwyaeth.

### Pŵer i ohirio panelau

**15.**—(1) Caiff y panel ohirio gwrandawiad gan y panel yn yr amgylchiadau canlynol —

(a) pan fo'r panel o'r farn bod yr wybodaeth sydd ganddo'n annigonol i'w alluogi i wneud argymhelliad i'r sefydliad perthnasol yn unol â rheoliadau 12(2), 13(2) ac 14(2); a

(b) pan fo'r panel yn dymuno gofyn am wybodaeth bellach.

(2) Rhaid ailgynnull y panel cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol pan fydd yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(b) ar gael, ond ddim hwyrach beth bynnag na 28 diwrnod calendr ar ôl dyddiad y gwrandawiad a ohiriwyd gan y panel

**Gweinyddu'r panelau**

**16.** Rhaid i'r panel gael ei weinyddu gan Weinidogion Cymru, a rhaid iddynt wneud darpariaeth addas ar gyfer trefniadau clercio i'r panel.

**Ffioedd aelodau o banelau**

**17.** Caiff Gweinidogion Cymru dalu i unrhyw aelod o banel unrhyw ffioedd a ystyrir yn rhesymol gan Weinidogion Cymru.

**Cofnodion**

**18.** Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau y delir gafael ar gofnod ysgrifenedig o adolygiad panel o benderfyniad cymhwysol, gan gynnwys y rhesymau dros argymhelliad y panel, ac a oedd yr argymhelliad yn unfrydol ynteu'n argymhelliad mwyafrif —

(a) am gyfnod o 5 mlynedd o'r dyddiad y gwneir yr argymhelliad; a

(b) o dan amodau diogelwch priodol.